# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 8 Chwefror 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
5 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Prosiectau Menter Cyllid Preifat

**C2 Brian Hancock:** A wnaiff Edwina Hart roi adroddiad byr ar y prosiectau menter cyllid preifat sydd ar waith yng Nghymru? (OAQ9394) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad yn cefnogi 13 o gynlluniau gwahanol gan awdurdodau lleol, ac mae dau o'r rheini wedi'u cau'n ariannol. Yn y sector iechyd, mae 17 o gynlluniau wedi'u cau'n ariannol ac mae negodiadau'n cael eu cynnal am bedwar arall. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru un cynllun a chan y Cynulliad ddau gynllun sydd wedi'u cau'n ariannol.

*Atebwyd cwestiynau 3 i 7 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Ariannu Prosiectau Adeiladu Cyhoeddus

**C8 Owen John Thomas:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y ffordd y mae'r fenter cyllid preifat yn cymharu â'r dulliau traddodiadol o ariannu prosiectau adeiladu cyhoeddus? (OAQ9387)

**Edwina Hart:** Mae'r fenter cyllid preifat yn cymharu'n ffafriol â dulliau a gâi eu defnyddio'n draddodiadol i ariannu prosiectau adeiladu cyhoeddus, drwy sicrhau bod y risg yn cael ei rhannu hyd yr eithaf rhwng y sector cyhoeddus a'r partner y mae wedi'i ddethol.

### Hyblygrwydd yn y Gyllideb i Ymdrin â Gofynion a Digwyddiadau Annisgwyl

**C9 John Griffiths:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar yr hyblygrwydd sydd ar hyn o bryd yng nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol i ymdrin â gofynion a digwyddiadau annisgwyl? (OAQ9440)

**Edwina Hart:** Cedwir llygad manwl ar yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf gan fod y sefyllfa'n newid yn barhaus. Yr wyf yn delio â gofynion a digwyddiadau annisgwyl, wrth iddynt godi, yng ngoleuni'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar sefyllfa gyllidebol y Cynulliad.

Ar gyfer 2002-03 a 2003-04, mae cyllideb y Cynulliad, sydd wedi'i chadarnhau, yn gynnwys cronfa wrth gefn ar gyfer gofynion a digwyddiadau annisgwyl.

### Diwygio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**C10 Jonathan Morgan:** Pa ddiwygiadau y mae Edwina Hart yn bwriadu eu gwneud i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ9464) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Strategaeth Datblygu Economaidd

**C11 Christine Gwyther:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y rhan sydd i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn y strategaeth datblygu economaidd newydd ar gyfer Cymru? (OAQ9436) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adfywio Cymunedol yng Ngheredigion

**C12 Elin Jones:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i wneud un taliad ychwanegol ac ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i roi hwb i adfywio cymunedol yng Ngheredigion? (OAQ9395) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Newidiadau i Bolisïau Arianyddol sydd yn Effeithio ar Gymru

**C13 Dafydd Wigley:** A wnaiff Edwina Hart roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r awdurdodau perthnasol yn y Deyrnas Unedig, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ynghylch newidiadau i bolisïau arianyddol sydd yn effeithio ar Gymru? (OAQ9401) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cymorth Treth i Siopau a Swyddfeydd Post Gwledig

**C14 Peter Rogers:** A yw Edwina Hart wedi dyrannu cyllid ychwanegol ac ar wahân ar gyfer gweithredu ymrwymiad y ddogfen bartneriaeth i roi cymorth treth o 100 y cant i siopau a swyddfeydd post gwledig? (OAQ9451)

**Edwina Hart:** Nid oes cyllid wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y cynllun cymorth treth i gefn gwlad. Mae'r Cynulliad yn cwrdd â chost y cynllun yn bennaf o'r gronfa drethu annomestig. Mae cynghorau'n cwrdd â 25 y cant o gost unrhyw gymorth dewisol yn lleol drwy'r dreth gyngor. Yn 1999-2000, tua £554,000 oedd y gost a ddisgynnodd ar y Cynulliad.

Yn unol â'n hymrwymiad yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Cytundeb Partneriaeth i Bobl Cymru', yr wyf yn ystyried pa un ai i ostwng y swm y mae'n rhaid i gynghorau ei godi'n lleol er mwyn eu hannog i roi mwy o gymorth i fusnesau bach yng nghefn gwlad.

## Gofynion Arian Net y Sector Cyhoeddus

**C15 Janet Ryder:** A yw Edwina Hart wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i'r awdurdodau priodol yn y Deyrnas Unedig, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda'r bwriad o ddiwygio telerau gofynion arian net y sector cyhoeddus, a elwid gynt yn ofynion benthyg y sector cyhoeddus, er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ddiweddaru eu stoc tai? (OAQ9404) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Gwerth yr Ewro yn Erbyn y Bunt Sterling

**C16 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Edwina Hart roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ynghylch goblygiadau dyraniad y gyllideb i Gymru yn sgîl symudiadau yng ngwerth yr ewro yn erbyn y bunt sterling? (OAQ9392) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyllideb 2000-01

**C17 Phil Williams:** Pryd fydd gan Edwina Hart syniad pendant o faint y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i wario o gyllideb 2000-01? (OAQ9403) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwariant y Pen ar Addysg**

**C18 Cynog Dafis:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol ac ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i'r corff addysg er mwyn caniatáu i'r hyn a gaiff ei wario y pen ar addysg yng Nghymru gyrraedd yr un lefel â Lloegr? (OAQ9407) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Broses Gyllidebol**

**C19 Alun Cairns:** A wnaiff Edwina Hart egluro'r broses gyllidebol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf? (OAQ9442)

**Edwina Hart:** Bydd y gwaith o adolygu'r cyllidebau yng nghylch cynllunio'r gyllideb yn 2001 a 2002 yn dilyn yr un broses agored, ddemocrataidd a chynhwysol â honno a gwblhawyd gan y Cynulliad yn Rhagfyr 2000. Mae'r gweithdrefnau manwl wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog Rhif 19.

**Gwaith Ymchwil a Datblygu ym Mhrifysgolion Cymru**

**C20 Phil Williams:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol ac ar wahân er mwyn caniatáu i brifysgolion Cymru ehangu ar eu gwaith ymchwil a datblygu? (OAQ9432) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hybu Cyfle Cyfartal**

**C21 Lorraine Barrett:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn wrth hybu cyfle cyfartal yng Nghymru? (OAQ9366)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r cyrff y mae'n eu noddi ac mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i hybu cyfle cyfartal yng Nghymru. Yr ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r mudiadau cydraddoldeb, yn rhai statudol a gwirfoddol, i sicrhau bod polisïau a rhaglenni'r Cynulliad yn adlewyrchu anghenion y grwpiau y maent yn eu cynrychioli.

**Rhwymedigaethau Ariannol yn y Cytundeb Partneriaeth**

**C22 Ann Jones:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar y cynnydd a wneir wrth gyflawni'r rhwymedigaethau ariannol yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ9378)

**Edwina Hart:** Yn y gyllideb a gadarnhawyd gan y Cynulliad yn Rhagfyr, cymerwyd camau sylweddol tuag at gyflawni'r rhwymedigaethau a nodwyd yn y cytundeb partneriaeth. Yr wyf yn cadw llygad yn barhaus i sicrhau bod pob rhwymedigaeth yn cael ei chyllido'n ddigonol.

**Newidiadau i Bolisïau Ariannol sydd yn Effeithio ar Gymru**

**C23 Dafydd Wigley:** A wnaiff Edwina Hart adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r awdurdodau perthnasol yn y Deyrnas Unedig, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar newidiadau i bolisïau ariannol sydd yn effeithio ar Gymru? (OAQ9400) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Arian Sydd ar Gael ar gyfer Strategaethau Cymunedol**

**C24 Janet Ryder:** A oes gan Edwina Hart unrhyw gynlluniau i grynhoi'r ffynonellau arian sydd ar gael ar gyfer strategaethau cymunedol? (OAQ9405) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyllideb y Cynulliad y Flwyddyn Nesaf**

**C25 Richard Edwards:** Pa drefniadau a wnaethpwyd at baratoi cyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn nesaf o fewn y fframwaith tair blynedd? (OAQ9377) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**

**C26 Christine Gwyther:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar effaith adolygiad cynhwysfawr o wariant y Llywodraeth ar Gymru? (OAQ9376)

**Edwina Hart:** Darparodd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ar gyfer 2000 ychwanegiadau sylweddol i gyllideb y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rhoddai'r ychwanegiadau gynnydd gwirioneddol blynyddol o 5.4 y cant ar gyfartaledd yn nherfyn gwariant adrannol y Cynulliad. Dylai dyraniad yr adnoddau hyn, a gadarnhawyd gan y Cynulliad yn Rhagfyr, gael effaith gadarnhaol ar Gymru.

**Prosiectau Adfywio Cymunedol**

**C27 Jocelyn Davies:** A wnaiff Edwina Hart ddatganiad ar ffynonellau arian i gyd-ariannu prosiectau adfywio cymunedol? (OAQ9397) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyllideb y Cynulliad yn 1999-2000**

**C28 Glyn Davies:** A danwariwyd yng nghyllideb y Cynulliad yn 1999-2000? (OAQ9461)

**Edwina Hart:** Yr oedd y tanwariant yng nghyllideb y Cynulliad yn 1999-2000 yn £183 miliwn, sef 1.9 y cant o'r ddarpariaeth derfynol. Cynhwyswyd manylion pellach am y tanwariant yn y datganiad a wneuthum i'r Cynulliad ar y mater hwn ar 12 Gorffennaf 2000.

**Mentrau Gwerth am Arian**

**C29 Rosemary Butler:** Pa fentrau gwerth am arian y mae Edwina Hart wedi'u cyflwyno i brosesau cyllidebol cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ9441)

**Edwina Hart:** Fel y mae'r datganiad rheoli ar gyfer pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn ei gwneud yn glir, mae'r Cynulliad yn disgwyl i CCNC sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu cyllid. O dan ganllawiau'r adolygiadau pum mlynedd o'r CCNC, a gyhoeddwyd ym Mai 2000, gofynnir i'r adolygwyr ymchwilio i gynlluniau cyrff i wella effeithlonrwydd a rheoli costau. Mae adolygiad o bedwar corff ar y gweill ar hyn o bryd. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yntau bwerau i ymchwilio i ystyriaethau gwerth am arian mewn perthynas ag CCNC. Byddir yn ymdrin â threfniadau caffael CCNC yn y cynllun caffael cenedlaethol sydd yn cael ei ddatblygu gan y Cynulliad ar hyn o bryd ac yn y cynigion ynglŷn â chynlluniau rheoli asedau.

**Cyllideb ar gyfer Hysbysebu**

**C30 David Davies:** Beth yw cyfanswm cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol? (OAQ9390)

**Edwina Hart:** Yr unig gyllidebau ar gyfer hysbysebu sydd wedi'i gynllunio gan weinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol yw'r rheini i'r diben o recriwtio staff, gwneud penodiadau cyhoeddus a gwneud hysbysiadau cyhoeddus. Yn y flwyddyn gyfredol, y swm sydd wedi'i neilltuo yw £884,000.

Gellir talu am hysbysebu hefyd allan o gyllidebau ar gyfer cyhoeddusrwydd. Nid oes unrhyw ddyraniad penodol wedi'i neilltuo ymlaen llaw ar gyfer hysbysebu o fewn y cyllidebau hynny, ond gall fod angen hysbysebu fel rhan o'r cyfuniad marchnata.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cefnogi a Datblygu'r Diwydiant Gweithgynhyrchu

**C6 John Griffiths:** Pa strategaeth a ddilynir i gefnogi a datblygu y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? (OAQ9437)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Byddaf yn lansio papur ymgynghorol ar strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn ddiweddarach yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Bydd y papur ymgynghorol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth derfynol.

Caiff y strategaeth derfynol ei chyhoeddi yn yr haf, ond yr wyf yn cydnabod bod anawsterau â mwy o frys ynghlwm wrthynt yn dilyn y cyhoeddiad brawychus diweddaraf i'r diwydiant dur. Bydd y diwydiant gweithgynhyrchu yn rhan amlwg o'r strategaeth, o ystyried pa mor bwysig ydyw o hyd yn economi Cymru.

### Cau Gwaith Dur Llanwern

**C7 William Graham:** A yw'r Cynulliad wedi trefnu archwiliad yn Nwyrain De Cymru i ddarganfod gwir effaith cau gwaith dur Llanwern ar economi, amgylchfyd, cymunedau a chwmnïau'r ardal? (OAQ9447)

**Michael German:** Mae'r Cynulliad wedi cynhyrchu sawl dadansoddiad ar faterion megis cyflogau lleol, cyflogaeth, diweithdra, y cynnyrch mewnwladol crynswth ac asesiadau o luosyddion a gyfrifir yn allanol. Ers cyhoeddiad Corus ar 1 Chwefror, mae dadansoddiad manylach yn cael ei gynnal o'r ardaloedd yr effeithir arnynt gan y golled swyddi arfaethedig, fel y cyhoeddais yn fy natganiad ddydd Mawrth diwethaf.

### Hybu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad

**C8 Glyn Davies:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ei bolisi i hybu twristiaeth yng nghefn gwlad? (OAQ9449)

**Michael German:** Fel rhan o'i raglenni datblygu a marchnata, bydd Bwrdd Croeso Cymru yn targedu cyrchfannau penodol yng nghefn gwlad er mwyn datblygu'r cynnyrch gwyliau yn y wlad, gan gynnwys y sector twristiaeth fferm. Bydd hefyd yn annog busnesau twristiaeth i ddefnyddio mwy o gynnyrch lleol er mwyn helpu i gynnig profiad neilltuol o gefn gwlad Cymru i ymwelwyr.

### Partneriaethau Strategol Amcan 1

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar weithrediad y partneriaethau strategol newydd ar gyfer y rhaglen Amcan 1? (OAQ9425)

**Michael German:** Mae gwahoddiadau wedi'u hanfon at bob partneriaeth ranbarthol a lleol, yn gofyn iddynt enwebu aelodau i'r pedair partneriaeth strategol a gynigiwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen. Gobeithiaf y gall y partneriaethau gwrdd cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor monitro rhaglenni Amcan 1 llawn ym Mawrth.

## Y Broses Cymorth Dethol Rhanbarthol

**C10 Alison Halford:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y broses cymorth dethol rhanbarthol bresennol, gan gyfeirio'n arbennig at swyddogaeth a ffurf Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru? (OAQ9369)

**Michael German:** Yr oedd cymorth dethol rhanbarthol yn destun trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 31 Ionawr. Cyflwynais bapur yn y cyfarfod hwnnw a ddisgrifiai'r fframwaith y mae cymorth dethol rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddo, y meini prawf a ddewisir i asesu cais a rôl Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru yn y broses asesu. Ni welaf fod angen datganiad pellach ar hyn o bryd.

## Safle Ffatri Dewhirst yn Llanbedr Pont Steffan

**C11 Elin Jones:** Pa gyfarfodydd y mae Michael German wedi eu cael gydag Awdurdod Datblygu Cymru ynglŷn â'i gynlluniau ar gyfer safle ffatri Dewhirst yn Llanbedr Pont Steffan? (OAQ9427)

**Michael German:** Mae'r WDA wedi cysylltu â'r landlord sector preifat sydd yn berchen ar safle ffatri Llanbedr Pont Steffan ac wedi cynnig ei farchnata i ddarpar fuddsoddwyr drwy ei gronfa ddata eiddo helaeth. Nid yw'r landlord wedi cyhoeddi unrhyw benderfyniad eto.

## MasnachCymru Rhyngwladol

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar weithrediad MasnachCymru Rhyngwladol? (WAQ9420)

**Michael German:** Ers sefydlu MasnachCymru Rhyngwladol, a ddaeth i rym yn Ebrill 2000, mae pedair swyddfa ranbarthol wedi eu creu i gryfhau'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau i bob rhan o Gymru. Yn benaethiaid ar y swyddfeydd mae pedwar cynghorwr masnach rhyngwladol, a recriwtiwyd o'r sector preifat oherwydd eu harbenigedd busnes rhyngwladol. Mae grwpiau ffocws rhanbarthol, sydd yn cynnwys dynion a menywod busnes lleol gan mwyaf, yn cael eu datblygu ynghyd â phartneriaethau â darparwyr gwasanaethau eraill. Mae rhwydwaith o ymgynghorwyr neu staff a gyflogir yn uniongyrchol wedi'i sefydlu mewn marchnadoedd tramor strategol ac mae cyfres o raglenni newydd yn cael eu datblygu. Penodwyd ei brif weithredwr ar 8 Ionawr 2001. Mae strategaeth busnes rhyngwladol i Gymru gyfan yn cael ei llunio a byddaf yn ystyried cynigion am fforwm masnach rhyngwladol yn fuan. Mae £1 miliwn ychwanegol wedi'i ychwanegu at gyllideb MasnachCymru Rhyngwladol ar gyfer 2001-02.

## Proses Dendro y WDA

**C13 Rosemary Butler:** Pa drafodaethau y mae Michael German wedi eu cael gydag Awdurdod Datblygu Cymru ynglŷn â'i broses dendro? (OAQ9385)

**Michael German:** Dim. Mater gweithredol i'r WDA yw proses dendro'r asiantaeth ac yr wyf yn hyderus ei bod wedi sefydlu trefn gaffael addas a phriodol.

## Adolygiad o Gefnogaeth i Fusnes

**C14 Christine Gwyther:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar adolygiad y Cynulliad o gefnogaeth i fusnes a sut y gweithredir ei ddarganfyddiadau? (OAQ9370) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygiad Economaidd yn Aberhonddu

**C15 Nick Bourne:** Beth y mae Michael German yn ei wneud i annog datblygiad economaidd yn Aberhonddu? (OAQ9443)

**Michael German:** Heddiw, yr wyf yn lansio papur ymgynghorol ar y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Mae'r papur yn nodi nifer o flaenoriaethau polisi ar gyfer Cymru gyfan.

Fodd bynnag, tra bo blaenoriaethau polisi'r papur yn bwysig, yr wyf yn cydnabod y gall lefel y flaenoriaeth a roddir iddynt amrywio o le i le yn ôl strwythur ac anghenion yr economi lleol. Gwelaf felly fod mawr angen i ddinasoedd mawr, trefi a rhanbarthau gwledig ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain o'u dyfodol hirdymor yng nghyd-destun y strategaeth genedlaethol.

### Gwasgaru Ffyniant Economaidd Ledled Cymru

**C16 Val Feld:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ei gynlluniau i sicrhau y gwasgerir ffyniant economaidd ledled Cymru? (OAQ9368) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Lleddfu'r Golled Swyddi Amcangyfrifiedig yn y Diwydiant Amaeth

**C17 Peter Rogers:** Pa drafodaethau y mae Michael German wedi eu cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan i sefydlu pecyn cymorth i leddfu'r golled amcangyfrifiedig o 3,796 o swyddi yn y diwydiant amaeth yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf? (OAQ9450) [R]

**Michael German:** Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn cyfeirio at y newid rhwng Mehefin 1999 a Mehefin 2000 yn nifer y bobl sydd yn gweithio ar ddaliadau fferm, fel y'i mesurir gan y cyfrifiad amaethyddol a garddwriaethol.

Mae'r cynllun datblygu gwledig a dogfen raglennu sengl Amcan 1 yn cynnig mesurau i gefnogi cymunedau gwledig a'r economi wledig. Yn ogystal, mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi sefydlu'r grŵp dyfodol ffermio i roi arweiniad cadarnhaol o ran cyfeiriad y diwydiant amaethyddol dros y degawd nesaf. Bydd adroddiad y grŵp, sydd i'w gyflwyno'n fuan, yn egluro'r opsiynau a'r camau gweithredu er mwyn hybu cynaliadwyedd y diwydiant yng Nghymru i'r dyfodol. Nid yw cadw'r sefyllfa fel ag y mae yn un o'r opsiynau hynny.

### Colled Swyddi yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu

**C18 Dafydd Wigley:** A wnaiff Michael German ddatgan faint o swyddi a gollwyd o fewn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru ers 1997? (OAQ9414)

**Michael German:** Dengys data o gofrestr cyflogaeth gweithgynhyrchu Cymru—cofnod o gwmnïau gweithgynhyrchu sydd â rhagor na 10 gweithiwr—fod tua 7,450 o swyddi wedi'u creu yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn yn sgîl agor gweithfeydd gweithgynhyrchu newydd a bod 23,600 o swyddi eraill wedi'u creu drwy ehangu gweithfeydd a oedd yn bodoli eisoes. Yr oedd y swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd oherwydd cau gweithfeydd a chrebachu yn 18,750 a 25,400, yn y drefn honno. Yr effaith drwyddi draw oedd bod nifer y swyddi gweithgynhyrchu wedi gostwng o ychydig mwy na 13,000, a bod y nifer bellach yn 192,600.

### Gwaith Ymchwil a Datblygu

**C19 Phil Williams:** Pa gamau y mae Michael German yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r gwaith ymchwil a datblygu yng Nghymru i lefel gyfartalog y DU gyfan? (OAQ9430)

**Michael German:** Bydd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn tanlinellu pa mor bwysig yw datblygu gallu ymchwil Cymru a manteisio'n llawn ar y gweithgaredd hwn fel elfen allweddol mewn twf a ffyniant economaidd.

Mae'r Cynulliad eisoes wedi cyflwyno sawl cynllun newydd wrth ymgyrraedd at darged 'Gwellcymru.com' o ddyblu canran y gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru erbyn 2003. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys y gronfa manteisio ar wybodaeth, yr ydym yn buddsoddi £4 miliwn ynddi

eleni a £10 miliwn y flwyddyn nesaf, a Wil i'w Wely i Gymru, menter i annog cydweithredu effeithiol rhwng diwydiant a'r byd academaidd, gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd ymchwil academaidd sydd yn berthnasol i ddiwydiant yn dod yn ddichonol o safbwynt masnachol.

Mae'r Cynulliad wedi negodi telerau cytundebau gwaith gyda'r cynghorau ymchwil er mwyn gwella'r cysylltiadau rhwng y Cynulliad, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a sefydliadau addysg uwch. Mae cyfarfodydd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

### Cynlluniau Amcan 1

**C20 Alun Cairns:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ddatblygiadau diweddaraf cynlluniau Amcan 1? (OAQ9445)

**Michael German:** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn parhau i gloriannu prosiectau a, chyhyd â bo'r cloriannu'n foddhaol, yn cyflwyno llythyron cynnig. Ceir manylion llawn y prosiectau a gymeradwywyd ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

**C21 Karen Sinclair:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ddyfodol Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen a'i phwysigrwydd i dwristiaeth yng ngogledd-ddwyrain Cymru? (OAQ9386) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Fforwm Allforion Newydd

**C22 David Lloyd:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar y fforwm allforion newydd arfaethedig? (OAQ9416)

**Michael German:** Corff anffurfiol fydd y fforwm masnach ryngwladol newydd, a'i rôl fydd cynghori MasnachCymru Rhyngwladol ynglŷn â'r trywydd strategol y dylai ei fabwysiadu wrth ddarparu cefnogaeth busnes ryngwladol i gwmnïau yng Nghymru. Gwahoddwyd cyrff ledled Cymru i enwebu aelodau i'r fforwm, ac mae hyn wedi cymryd peth amser. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys cymysgedd o gyrff o'r sectorau preifat a chyhoeddus sydd yn ymwneud â masnach ryngwladol. Cwmnïau allforio profiadol fydd y grŵp mwyaf gan roi cynrychiolaeth ddaearyddol gytbwys ar draws Cymru. Bydd cyfansoddiad y fforwm yn adlewyrchu'r bartneriaeth masnach ryngwladol a sefydlwyd i sicrhau cyllid Amcan 1 a bydd yn rhoi priod sylw i egwyddorion cydraddoldeb, yn enwedig materion rhyw, hil ac anabledd. Byddaf yn ystyried cynigion manwl ar gyfer aelodaeth yn fuan. Mae'n bwysig ein bod yn cael y gynrychiolaeth gywir o sectorau perthnasol ac, yn arbennig, o fusnesau sydd â chefndir busnes rhyngwladol priodol.

### Rhaglen Amcan 2

**C23 Cynog Dafis:** A wnaiff Michael German roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Amcan 2 yng Nghymru? (OAQ9423)

**Michael German:** Mae dogfen rhaglen Amcan 2 wedi'i chymeradwyo gan bwyllgorau perthnasol y Comisiwn Ewropeaidd a disgwylir iddi gael ei llofnodi gan y Comisiynydd Barnier erbyn diwedd Chwefror 2001. Disgwyliaf i'r pwyllgor monitro rhaglenni newydd gwrdd o fewn yr wythnosau nesaf ac y dechreuir rhoi'r rhaglen ar waith yn Ebrill, unwaith y bydd y pwyllgor wedi cytuno ar becyn y rhaglen.

### Mesurau a Gyhoeddwyd yn Natganiad y Canghellor cyn y Gyllideb

**C24 Janet Davies:** A yw Michael German wedi ymgymryd ag unrhyw brosesau ymgynghori yng Nghymru ynglŷn ag agweddau datblygu economaidd y mesurau a gyhoeddwyd yn natganiad y Canghellor cyn y gyllideb? (OAQ9421)

**Michael German:** Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod y cynlluniau a argymhellwyd gan y Canghellor yn ei adroddiad cyn y gyllideb gyda'r Trysorlys. Deallaf y bydd y Trysorlys yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ffurfiol yn fuan ar y cynllun credyd treth ar gyfer buddsoddi cymunedol a argymhellwyd gan y tasglu buddsoddi cymdeithasol.

### Cyrff sydd yn Gyfrifol am Weinyddu Cronfeydd Ewropeaidd

**C25 Richard Edwards:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ei berthynas waith gyda'r cyrff hynny sydd yn gyfrifol am weinyddu cronfeydd Ewropeaidd? (OAQ9373) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Adnewyddu Economaidd ym Mae Caerdydd

**C26 David Melding:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ba bolisïau y mae'r Weithrediaeth yn eu gweithredu i hyrwyddo adnewyddu economaidd ym Mae Caerdydd? (OAQ9452) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynlluniau Amcan 2 (Canol De Cymru)

**C27 Owen John Thomas:** A wnaiff Michael German ddatganiad ynghylch cynlluniau Amcan 2 yn rhanbarth Canol De Cymru? (WAQ9381) [W]

**Michael German:** Er bod pwyllgor cronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r ddogfen raglennu sengl Amcan 2, yr ydym yn parhau i aros am ei gydsyniad ffurfiol, y disgwyliwn ei gael ddiwedd Chwefror 2001. Disgwyliaf y bydd pwyllgor monitro rhaglenni Amcan 2 yn cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf ac y bydd wedi cytuno ar becyn y rhaglen erbyn Ebrill. Unwaith y caiff hyn ei gwblhau, bydd y gwaith ar y rhaglen yn cychwyn a gellir cymeradwyo'r cynlluniau cyntaf yn fuan wedyn.

### Trafodaethau ar Corus

**C28 Peter Black:** A wnaiff Michael German roi adroddiad ar y trafodaethau y mae wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â Corus? (OAQ9411)

**Michael German:** Bûm yn rhan o ddeialog sylweddol sydd yn parhau rhwng y Cynulliad, Corus, Llywodraeth y DU a'r undebau llafur, ac yr ydym wedi cynnig yn barhaus i helpu'r cwmni mewn unrhyw ffordd bosibl. Fodd bynnag, dywedodd y cwmni wrthym nad oedd dim y gallai'r Llywodraeth ei wneud i ddylanwadu ar ei benderfyniadau ailstrwythuro.

### Adfywio Diwydiannol yn Ne Cymru

**C29 Jonathan Morgan:** A wnaiff Michael German ddatganiad ar ba bolisïau y mae'r Weithrediaeth yn eu gweithredu i hyrwyddo adfywio diwydiannol yn ne Cymru? (OAQ9453) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Twristiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

**C30 Nick Bourne:** Beth mae Michael German yn ei wneud i annog twristiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? (OAQ9444)

**Michael German:** Dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf mae Bwrdd Croeso Cymru wedi buddsoddi £38 miliwn i gefnogi prosiectau twristiaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r bwrdd yn cefnogi rhoi strategaethau twristiaeth rhanbarthol ar gyfer canolbarth a gorllewin Cymru ar waith, ac yn gweithio mewn partneriaeth â gweithgorau twristiaeth y fforymau economaidd rhanbarthol, awdurdodau lleol a chwmnïau twristiaeth rhanbarthol ar sawl ymgyrch farchnata, gan gynnwys cyhoeddi a dosbarthu llyfrynnau twristiaeth ardal.